CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 11, 2022

www.cyngorllanelltyd.cymru

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Hydref 11, 2022 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Gwenan Owen, Eleri Jones, Llinos Rowlands. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Delyth Lloyd Griffiths.

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 13, 2022

Cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer ac eilwyd gan Gwenan Owen.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Medi 13, 2022

Eitem 11.b.
Rhestr o'r llwybrau sy'n cael eu trin yn ardal Bontddu:

Rhif 46. Gelli Rydd - tu ôl i'r tai cyngor ar y ffordd.
Rhif 76. O Gelli Rydd i Maes Clawdd
Rhif 61 O ffordd yr Aber at y Saltings
Rhif 61 Darn wrth Rhuddallt
Rhif 48 Derlwyn i Pont Figra
Rhif 48 a 47 Pont Tynglan
Rhif 68 Ger Fferm Farchynys
Rhif 50 O'r ffordd ger Maes Fallen i fyny at lwybr 34 - Berth y Bil.
Rhif 51 O Cae Goronwy - Ffridd Ddu - Hen Hafod Uchaf
Rhif 69 O Cae Goronwy i Uwch Mynydd
Rhif 66 Pont Ffridd Ddu- Pont yr Hendre
Rhif 53 Pont Ffridd Ddu i dŷ Hendreforion - Ffridd Tynglan - Garthgell yn ôl i Afon Garthgelll
Rhif 78 Llechfraith Uchaf - Coed Noris - Garthgell

Rhestr o'r llwybrau sy'n cael eu trin yn ardal Llanelltyd:

Rhif 8. O Bwlch gwynnt i Gorffwysfa, Taicynhaeaf
Rhif 9. O rhif 8 i Foel Isbri Uchaf.
Rhif 3. O rhif 9 i Foel Isbri Isaf.
Rhif 14. O rhif 9 i rhif 15 (ar hyd Gallttrheddwch).

Rhif 19 O Trem Idris i Bryn Du
Rhif 5. O Ty'n yr Ardd i rhif 19 ac ymlaen ar hyd rhif 4 i Llyn Tan y Graig.
Rhif 21. O Murmur y Nant at gamfa, Bryn Du.
Rhif 26. O Bro Cymmer at ffin y gymuned wrth Hafod y Fedw.
Rhif 27. O rhif 26 tuag at Coed Cae Beudy Isaf.
Rhif 42 O rhif 27 at ffin y gymuned.
Rhif 32. O rhif 42 i gogledd Cae Gwernog.
Rhif 24. O rhif 27 i Llyn Tan y Graig.
Rhif 22. O rhif 24 i Tan y Graig.
Rhif 34. O hen bont Llanelltyd i Trem y Gader.
Rhif 35. O groesffordd Llanfachreth at y Golff (Llwybr Buan).
Rhif 38. Pentre Ffarm at y nant (cwrs golff).

Eitem 11.a. Cafodd y llythyr ei anfon ymlaen i Gwasanaeth Llygredd a Thrwyddedu'r Adran am sylw.

Llythyr (26/9/2022) oddi wrth Gwarchod y Cyhoedd, Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth maent ei angen. Anfonwyd y llythyr ymlaen i Llinos Williams am y wybodaeth.

Eitem 9.a. Cafwyd y cyfarfod yn Clogau St David's Gold Mine. Roedd tua pymtheg yn bresennol ac o'r Cyngor roedd Elfed, Delyth a Henry. Cafwyd disgrifiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud, y rheolau maent eu dilyn, a rheolau i sicrhau glendid y dŵr a diogelwch ystlumod. Cafwyd taith trwy ran o'r gwaith aur lle'r oedd gwisgo 'wellingtons', helmed, a thortsh yn angenrheidiol. Ymddiheurodd Simon a Gareth nid oeddynt am fod yn y cyfarfod.

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan Elfed.

Eitem 10.e. Llythyr (11/10/2022) oddi wrth Gwasanaeth Traffic a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd gyda'u cynllun i gyflwyno cyfyngiadau parcio ar gyffordd o'r ffordd A496 tuag at Swn y Nant, Bontddu. Maent angen gwybod os gennym sylwadau ar y cynllun.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r cynllun.

5. Materion Ariannol

a. Siec am £435 oddi wrth Miss Tina Edwards (22/9/2022). Taliad at Colleen Mary Edwards - hawl claddu gweddillion o'r amlosgfa (£220) + claddu gweddillion o'r amlosgfa (£215)..

b. Bil (22/9/2022) am £107 oddi wrth Cyngor Gwynedd tuag at gostau etholiad cynghorau tref / cymuned 2022.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Llythyr (29/9/2022) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at gostau'r Urdd ym Meirionnydd.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (6/9/2022) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod am eu Hadroddiad Blynyddol Drafft oedd gyda'r llythyr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Balans yn y banc ar 29/9/2022: £15,016.45. (29/9/2021: £15,648.26).

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (28/9/2022) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod am Ymgynghoriad Cyhoeddus ar: 1. Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain: cyflwyniad a throsolwg polisi cynllunio.
2. Gwerthusiadau a chynlluniau rheolaeth unigol ar gyfer pob ardal gadwraeth (Abaty Cymmer).
3. Cyngor ar fesurau effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd cadwraeth – canllaw cynllunio ac ymarferol.

Mae'r dogfennau ar gael ar https://planning.snowdonia.gov.wales/policy/conservation-areas-project/

Os mae ymatebion eu hanfon i ACaddasC21@eryri.llyw.cymru erbyn 11/11/2022.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (14/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn gofyn a oes gennym sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Ymgynghoriad Treth Cyngor Decach'. Os oes eu hanfon i Un Llais Cymru cyn Medi 20.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (16/9/2022) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf yn rhoi gwybod cynhelir rali ceir gan y clwb ar nos Sadwrn 1af / bore Sul 2fed o Hydref 2022. Bydd y ceir yn cychwyn o Trawsfynydd tua 11.00yh ac yna ar hyd ffyrdd Meirionydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (16/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am holiadur gan Cymdeithas Llywodraeth Leol / Un Llais Cymru i gynghorau cymuned a thref i asesu beth ydy capasiti a gallu digidol eu hardal. Maent angen yr holiadur wedi ei gwblhau erbyn Hydref 7, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (26/9/2022) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn rhoi gwybod maent wedi cyhoeddi eu Canllaw Arolygon Cymunedol. Mae hwn i sicrhau bod Cymunedau yn parhau i adlewyrchu eu hardal yn enwedig mewn sefyllfa lle e.e. mae stad o dai wedi'u hadeiladu dros ffin bresennol y Gymuned. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gallai unrhyw newidiadau posibl i ffiniau Cymunedol neu drefniadau etholiadol achosi pryder i gynghorau. Mae'r Canllawiau'n nodi cyfnod o ymchwilio ac ymgynghoori sydd eu hangen yn ystod gynnal Arolygon Cymunedol. Amgáu mae'r Canllawiau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (26/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda gwybodaeth ar gyfer cynllun hyfforddiant i'r Cyngor. Mae'r wybodaeth yn cynnwys dogfen Model Dempled ar gyfer y cynllun. Mae hyn er mwyn inni gyflawni cyfrifoldeb statudol y Cyngor.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru 2021) mae angen i gynghorau cymuned gwneud a chyhoeddi cynllun hyfforddiant ar gyfer aelodau a staff ac ei gyhoeddi erbyn 5 Tachwedd 2022. Mae angen cynghorwyr a chlercod cael hyfforddiant i gyflawni eu rôl.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Wedi gwneud ymholiadau gydag Un Llais Cymru (28/9/2022) ynglŷn â'r mater, cafwyd fwy o wybodaeth am y cynllun hyfforddiant a chafwyd wybod mae rhaid i'r Cyngor paratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddiant cyntaf erbyn 5 Tachwedd 2022.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r aelodau fynd ar gyrsiau Un Llais Cymru a holi Un Llais Cymru os mae'n bosib iddynt hwy ddod atom ni i roi'r cyrsiau.

dd. Llythyr (5/10/2022) oddi wrth Safonau Masnach Cyngor Gwynedd (Iechyd Anifeiliaid) yn rhoi gwybod derbyniwyd hysbysiad ar y 5/9/2022 gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) am bresenoldeb ffliw adar pathogenaidd iawn (HPAI) H5N1 ar safle adar caeth yn Arthog. Cafodd Ardal Amddiffyn 3km a Pharth Gwyliadwriaeth 10km eu datgan o amgylch yr adeiladau heintiedig. Yn dilyn ymyrraeth gyflym gan APHA a Safonau Masnach Cyngor Gwynedd (Iechyd Anifeiliaid), drwy weithredu gweithgareddau rheoli clefydau oddi fewn y parth diogelu 3km, mae'r parth bellach wedi cael ei godi ers 30/9/2022. Mae'r parth gwyliadwriaeth 10km fodd bynnag yn parhau yn ei le. Mae rhagor o fanylion am y mesurau yn y parth gwyliadwriaeth ar gael ar:https://llyw.cymru/datganiad-o-barth-gwarchod-parth-gwyliadwriaeth-ffliw-adar-

ger-arthog-gwynedd-cymru

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

10. Adroddiad Cynghorydd Gwynedd Mrs Delyth Lloyd Griffiths

a. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno bydd Gwasanaeth Cynnal Gaeaf, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn darparu biniau halen y gymuned a'i llenwi o 1/10/22 ymlaen. Amgáu mae adroddiad Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd yr adroddiad i'r aelodau.

11. Materion Brys

a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau'r Fynwent, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Yr unig newid oedd yn Rheolau'r Fynwent lle cynhwyswyd rheol 'Ni chaniateir gwasgharu gweddillion amlosgedig yn y fynwent.'

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

1. mae angen rhoi sylw i ffordd Cwm Hirgwm gyda ochr y ffordd yn rhoi ger Llechfraith.
2. mae angen symud y 'bolards' sydd ar ochr y ffordd ger Penebo ar ffordd Cwm Hirgwm.

3. Mae angen archwilio diogelwch coed ynn sy'n tyfu ar ochr ffordd Cwm Mynach. Mae'r archwiliad o achos y clefydd 'ash dieback'.

c. Angen clirio y triongl yng ngwaelod Cwm Hirgwm yn Bontddu sydd wedi cael ei grybwyll yn y pwyllgor o'r blaen.

Penderfynwyd gofyn i Gwasanaeth Tir a Choed i wneud y gwaith. Gofynnwyd i Mr J.E. Williams wneud y gwaith ym mis Mehefin.